**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwella Gwasanaethau, Adfywio a Chyllid

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 26 Medi 2023 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C A Holley (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| E W Fitzgerald | P R Hood-Williams | L James |
| D H Jenkins | M Jones | S M Jones |
| J W Jones | W G Thomas | M S Tribe |
| T M White | | |

**Aelod(au) y Cabinet**

| | |
|---|---|
| Y Cyng. Rob Stewart | Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth |
| Y Cyng. David Hopkins | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau a Pherfformiad Corfforaethol |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid a'r Swyddog Adran 151 |
| Richard Rowlands | Rheolwr Perfformiad Corfforaethol |
| Rachel Percival | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): P M Black a/ac B J Rowlands

---

## 13 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Nid oedd unrhyw ddatgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

## 14 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Dim.

## 15 Cofnodion

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol.

## 16 Cwestiynau gan y Cyhoedd

There were no public questions received.

17 **Alldro Cyfalaf ac Ariannu 2022/23**

Roedd y Cynghorydd Rob Stewart, Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth a Ben Smith, y Cyfarwyddwr Cyllid a Swyddog Adran 151 yn bresennol i roi trosolwg.

- Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar y sefyllfa alldro cyfalaf ar 31 Mawrth 2023, gan adrodd ar danwariant net o £28.8m. Cymeradwyodd y Cabinet bod y tanwariant yn cael ei drosglwyddo i 2023/24 yn ystod y cyfarfod ym mis Medi.
- Ers mis Mawrth, mae sawl cynllun ar raddfa fawr wedi'u hychwanegu at y rhaglen oherwydd gorwariant neu ailbroffilio. Bydd adroddiad cyllideb chwarter cyntaf 2023/24 a gyflwynir i'r Cabinet ym mis Hydref yn cyfeirio at raglen gyfalaf ar gyfer y flwyddyn gyfredol ar gyfer mwy na £150 miliwn. Mae rhai costau gormodol sylweddol wedi cymhlethu hyn, ac mae hyn wedi effeithio ar sawl cyngor.
- Mae'r tanwariant a drosglwyddir wedi bod yn ennill llog o dros 5% i'r cyngor yn y tymor byr ond caiff ei wario fel y'i dyrennir yn y pendraw.
- Lle y bo'n bosib, sicrheir contractau pris sefydlog gyda datblygwyr ac mae'r cyngor yn hyderus y gellir talu am y rhaglen gyfalaf o hyd a'i fod yn fforddiadwy o fewn y polisi cyffredinol.

18 **Adroddiad Monitro Perfformiad Chwarter 1 2023/24**

Cyflwynodd y Cyng. David Hopkins, Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad a Richard Rowlands, Rheolwr Perfformiad Corfforaethol yr adroddiad.

- Ar ddiwedd y chwarter cyntaf, cafwyd 19 o ddangosyddion a gyrhaeddodd eu targedau neu a ragorwyd arnynt, roedd 3 o ddangosyddion o fewn 5% o'u targed ac ni gyrhaeddodd 6 o ddangosyddion eu targedau. Nid oedd gan 5 o ddangosyddion eraill unrhyw darged y chwarter hwn.
- Mae lefelau salwch wedi gwella, ond maent yn uchel o hyd mewn rhai adrannau, ac mae hyn yn cael ei fonitro'n agos o hyd.
- Eleni, ychwanegwyd casgliad newydd o fesurau mewn perthynas ag Adferiad Natur a Newid yn yr Hinsawdd. Mae gwaith yn parhau o hyd yn y maes hwn er mwyn nodi mesurau sy'n gadarn, wedi'u diffinio'n glir ac y gellir adrodd yn hyderus amdanynt.

19 **Cynllun Gwaith**

Trafodwyd y cynllun gwaith, gan gynnwys safleoedd datblygu posib i'w hadolygu yn ystod y flwyddyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.00am.

**Cadeirydd**